

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth
Gyffordd 27 (Highcross),
Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2018

The M4 Motorway (Slip Roads at
Junction 27 (Highcross), Newport)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2018

Gwnaed 25 Ebrill 2018
Yn dod i rym 1 Mai 2018

Made 25 April 2018
Coming into force 1 May 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 London to South Wales Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 27 (Highcross), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Mai 2018.

1. The title of this Order is The M4 Motorway (Slip Roads at Junction 27 (Highcross), Newport) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 1 May 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Mai 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r dwyrain a thua’r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 27 (Highcross).

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Ebrill 2018

Richard Morgan

Pennaeth Safonau Rheoli Asedau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno tua’r dwyrain a thua’r gorllewin traffordd yr M4 wrth Gyffordd 27 (Highcross).

2. Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael tua’r dwyrain a thua’r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 27 (Highcross).

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 1 May 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the entire lengths of the eastbound and westbound entry and exit slip roads of the motorway at Junction 27 (Highcross).

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

25 April 2018

Richard Morgan

Head of Asset Management Standards
Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

1. The entire lengths of the M4 eastbound and westbound entry slip roads at Junction 27 (Highcross).

2. The entire lengths of the M4 eastbound and westbound exit slip roads at Junction 27 (Highcross).

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (FFYRDD
YMUNO AC YMADAEL WRTH GYFFORDD 27
(HIGHCROSS), CASNEWYDD) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar ffyrdd ymuno ac ymadael Traffordd yr A4, neu gerllaw iddynt, wrth Gyffordd 27 (Highcross), Casnewydd.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r Draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn gweithredu yn ysbeidiol dros nos rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch o 1 Mai 2018 hyd 31 Hydref 2019, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Pan fo'n ymarferol, bydd hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiad yn cael ei arddangos tua un wythnos cyn pob tro y bydd y ffordd ar gau. Ni fydd amserau cau'r ffyrdd ymuno ac ymadael yn gwrthdaro â'i gilydd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin traffordd yr M4 wrth Gyffordd 27 (Highcross).

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig a cherbydau sy'n

**THE M4 MOTORWAY (SLIP ROADS AT
JUNCTION 27 (HIGHCROSS), NEWPORT)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the slip roads of the M4 Motorway at Junction 27 (Highcross), Newport.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the Motorway specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

It is expected that the temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate intermittently overnight between 20:00 hours and 06:00 hours from 1 May 2018 until 31 October 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Where practical, advance notice of the prohibition will be displayed approximately one week before a closure. The slip road closures will not conflict with each other.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

1. The entire lengths of the M4 eastbound and westbound entry slip roads at Junction 27 (Highcross).

The alternative route for all traffic and vehicles with a

pwysu llai na 7.5 tonnelli fydd ymuno â'r B4591 tua'r gogledd-orllewin ac yna tua'r de i Gyffordd Tŷ-du ac yna ymuno â'r A467 tua'r de-ddwyrain i ymuno â'r draffordd wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar).

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig a cherbydau sy'n pwysu dros 7.5 tonnelli fydd ymuno â'r B4591 tua'r dwyrain i Gylchfan Harlequin yna ymuno â'r A4051 (Ffordd Malpas) i ymuno â'r draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).

2. Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 27 (Highcross).

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig a cherbydau sy'n pwysu llai na 7.5 tonnelli fydd gadael y Draffordd wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) yna ymuno â'r A467 a mynd tua'r gogledd-orllewin i Gyffordd Tŷ-du ac ymuno â'r B4591 tua'r gogledd ac yna tua'r de-ddwyrain i Highcross.

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig a cherbydau sy'n pwysu dros 7.5 tonnelli fydd gadael y Draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas) yna ymuno â'r A4051 tua'r de i Gylchfan Harlequin ac ymuno â'r B4591 tua'r de ac yna tua'r gorllewin i Highcross.

weight less than 7.5 tonnes will be to join the B4591 in a northwesterly direction then a southerly direction to Rogerstone Junction then join the A467 in a southeasterly direction to join the motorway at Junction 28 (Tredegar Park).

The alternative route for all traffic and vehicles with a weight over 7.5 tonnes will be to join the B4591 in an easterly direction to Harlequin Roundabout then join the A4051 (Malpas Road) to join the motorway at Junction 26 (Malpas).

2. The entire lengths of the M4 eastbound and westbound exit slip roads at Junction 27 (Highcross).

The alternative route for all traffic and vehicles with a weight less than 7.5 tonnes will be to exit the Motorway at Junction 28 (Tredegar Park) then join the A467 and continue in a northwesterly direction to Rogerstone Junction and join the B4591 in a northerly direction then a southeasterly direction to Highcross.

The alternative route for all traffic and vehicles with a weight over 7.5 tonnes will be to exit the Motorway at Junction 26 (Malpas) then join the A4051 in a southerly direction to Harlequin Roundabout and join the B4591 in a southerly direction then a westerly direction to Highcross.